

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|----------------------------------|-------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------------|
| Pwyllgor: | Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol |
| Dyddiad: | 13 Medi 2021 |
| Pwnc: | Adroddiad Cynnydd y Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Pwrpas yr Adroddiad: | Cadarnhau'r cynnydd a'r gwelliannau a wnaed hyd yma yn y Gwasanaethau Cymdeithasol. |
| Cadeirydd Sgrwtini: | Y Cyngorydd Aled Morris |
| Deilydd(iaid) Portffolio: | Y Cyngorydd Llinos Medi |
| Pennaeth Gwasanaeth: | Fon Roberts, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, a Phennaeth Gwasanaethau Plant a Theuluoedd Iola Richards, Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Oedolion |
| Awdur yr Adroddiad: | Emma Edwards |
| Ffôn: | Rheolwr Busnes, Gwasanaethau Oedolion |
| E-bost: | 01248 751887 Emmaedwards@ynysmon.gov.uk |
| Aelodau Lleol: | Perthnasol i bob Aelod |

1 - Argymhelliad/au

Gofynnir i'r Pwyllgor Sgrwtini Corfforaethol:

- **Gadarnhau ei fod yn fodlon ar gyflymder y cynnydd a'r gwelliannau a wnaed hyd yma yn y Gwasanaethau Cymdeithasol.**
- **Argymhell i'r Pwyllgor Gwaith fod cynnydd a chyflymder y gwelliannau yn y Gwasanaethau Cymdeithasol yn ddigonol.**

2 – Cyswllt efo Cynllun y Cyngor/ Blaenoriaethau Corfforaethol Eraill

Oes yn gysylltiedig â Chynllun Cyngor YM 2017-22 - Amcan 1, 2 a 3.

3 – Egwyddorion Arweiniol ar gyfer Aelodau Sgrwtini

Er mwyn cynorthwyo Aelodau wrth graffu ar y pwnc:-

3.1 Effaith mae'r eitem yn ei chael ar unigolion a chymunedau **[ffocws ar y cwsmer/ dinesydd]**

3.2 Edrych ar effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd unrhyw newid arfaethedig – yn ariannol ac o ran ansawdd **[ffocws ar werth]**

3.3 Edrych ar unrhyw risgiau **[ffocws ar risg]**

Caiff Adroddiadau AGC eu rhannu o dan Adran 5, pwynt 1 a 2 gan amlinellu'r cynnydd a wnaed hyd yma ar draws Gwasanaethau Oedolion a Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, ac mae'n ceisio rhoi sicrwydd i aelodau o'r gwelliannau a wnaed.

3.4 Sgrwtini'n cymryd rôl rheoli perfformiad neu sicrhau ansawdd **[ffocws ar**

berfformiad ac ansawdd]

Mae'r adroddiad hwn yn ceisio rhoi sicrwydd i Aelodau'r Pwyllgor Sgriwtini ein bod wedi datblygu a chynnwys prosesau Sicrhau Ansawdd, yr adroddir arnynt o dan Adran 5, Pwynt 4 yr adroddiad hwn.

3.5 Edrych ar gynlluniau a chynigion o safbwynt:

- Hirdymor
- Atal
- Integreiddio
- Cydweithio
- Cynnwys

[ffocws ar les]

4 - Cwestiynau Sgriwtini Allweddol

1. I ba raddau mae'r rhaglenni gwaith ar waith yn ddigon cadarn i gyflawni'r gwelliannau angenrheidiol ar gyflymder priodol?
2. Beth yw'r prif risiau i gyflawni'r gwelliannau angenrheidiol a sut mae'r rhain yn cael eu lliniaru?
3. Pa gamau sy'n cael eu cymryd gan Banel Gwella'r Gwasanaethau Cymdeithasoli gefnogi'r siwrnai wella?
4. Pa awgrymiadau sydd gan y pwyllgor i gryfhau'r ffrydiau gwaith hyn ymhellach?

5 – Cefndir / Cyd-destun**Cefndir – Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol**

Nod yr adroddiad hwn yw rhoi gwybodaeth i aelodau'r Pwyllgor Gwaith am y cynnydd ers cyfarfod cychwynnol o'r Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol ar y Cyd.

Er bod ein gwaith yn cael ei flaenoriaethu ar sail gofynion statudol, rydym hefyd yn sicrhau bod ein hymdrechion yn gyson â'r blaenoriaethau corfforaethol fel y'u rhestrir yng Nghynllun y Cyngor. Yr amcanion perthnasol ar gyfer ein gwasanaethau yw:

Amcan 2: Cefnogi Oedolion a Theuluoedd sy'n Agored i Niwed i'w Cadw'n Ddiogel, yn lach ac mor Annibynnol â phosibl

1. Diweddariad Gwasanaeth Plant a Theuluoedd:**i) Cynyddu'r nifer y Gofalwyr Maeth Awdurdod Lleol -**

Ar hyn o bryd, mae gennym 108 o unigolion sydd wedi cofrestru fel gofalwyr maeth gyda CSYM, yn cynnwys:

- 36 o gartrefi maeth prif lif
- 28 o gartrefi maeth personau cysylltiedig

Yn ystod 2020/21

- 9 o gartrefi maeth prif lif (cyffredinol) wedi'u cymeradwyo
- 12 cartref person cysylltiedig (teulu a ffrindiau) wedi'u cymeradwyo

Mae hyn wedi galluogi nifer uwch o blant i aros ar Ynys Môn a pharhau yn rhan o'u teuluoedd estynedig a chymunedau lleol. Rydym hefyd wedi gallu cymeradwyo nifer bychan o leoliadau Maeth Arbenigol h.y. lleoliadau Mam a Phlentyn ac eto bydd hyn yn osgoi'r angen i deuluoedd gael eu lleoli y tu allan i'r Sir ar gyfer asesiadau arbenigol a chefnogaeth.

Y targed recriwtio ar gyfer 2021/22 yw gallu cymeradwyo 6 lleolaid prif lif ac mae'r sefyllfa ar ddiwedd Chwarter 4 yn bositif gyda :-

- 4 asesiad prif lif ar y gweill
- 1 cais prif lif yn disgwyl asesiad (Cam 1)
- Disgwyl 1 cais pellach

Mae yna recriwtio rhanbarthol wedi'i dargedu pellach wedi'i drefnu ar gyfer 2021/22 ac o ganlyniad i dwf diweddar y gwasanaeth, mae capasiti gwaith cymdeithasol ychwanegol wedi'i gytuno, gan fynd â'r FTE i 4.75 Gweithiwr Cymdeithasol a'r swydd ychwanegol o Weithiwr Maethu Cefnogol.

Mae swyddi yn cael eu hysbysebu ar hyn o bryd ac mae recriwtio yn parhau.

Bydd hyn yn rhoi'r cyfle i adolygu strwythur y Tîm a'r ffordd mae'r gwasanaeth yn gweithredu ar draws yr ynys.

ii) Agor ein 'Cartrefi Clyd' cyntaf:

Gweithio tuag at ein cartrefi o fath teulu ar yr ynys a fydd yn galluogi i blant y gofelir amdanynt o Ynys Môn dderbyn gofal ar yr ynys, mynychu ysgolion lleol a chymryd rhan mewn bywyd cymunedol yn hytrach na chael eu lleoli mewn lleoliad pellach i ffwrdd o'r gymuned leol y gymuned y maent wedi arfer â hi.

Mae ein dau gartref cyntaf bellach yn llawn ac wedi'u staffio'n llawn, gyda pherson ifanc yn ein heiddo un ystafell wely a dau blentyn yn yr ail gartref.

Mae'r trydydd eiddo, a fydd yn darparu seibiannau byr i blant a phobl ifanc ag anableddau dysgu, wedi ei gwblhau ac mae cofrestrriad wedi ei gyflwyno i Arolygiaeth Gofal Cymru.

Bydd y pedwerydd eiddo yn adlewyrchu model ein dau gartref gofal bychan arall ar gyfer Plant y Gofelir Amdanynt.

iii) Cerdyn Adnabod Gofalwyr Ifanc

Mae'r prosiect hwn ar y cyd rhwng *Action for Children*, a Gwasanaethau Cymdeithasol Gwynedd a Môn, wedi arwain at ddatblygiad cerdyn adnabod Gofalwyr Ifanc, fel rhan o fenter gan Lywodraeth Cymru. Mae cardiau wedi cael eu dylunio ac yn cael eu dosbarthu ar hyn o bryd.



Cyflwyniad
Gofalwyr Ifanc a Cer



Gwynedd and
Anglesey Young Car

iv) Diweddariad Cynllun Cymunedau Gwydn

Cyllid Llywodraeth Cymru i gefnogi'r ddarpariaeth o wasanaethau mewn modd trawsnewidiol.

Mae'r Grant Trawsnewid wedi ei gyflwyno'n swyddogol yng Ngwynedd a Môn. Canllawiau a'r Ffurflen Gais wedi'u cynhyrchu ar gyfer Grant Trawsnewid. Maent eisoes wedi derbyn nifer o ymholiadau ac felly'n obeithiol y bydd rhai ceisiadau da ar y gweill. Mae'r prosiectau yn cael eu monitro gan Medrwn Môn a Mantraeth Gwynedd.

Mae grantiau o hyd at £5000 ar gael. Bydd yn rhaid i geisiadau gwrdd ag o leiaf un o nodau ac amcanion y gronfa:

- . Gweithgareddau Cymunedol
- . Chwarae Strwythuredig
- . Cefnogaeth i rieni a phlant yn dilyn effaith Covid 19

Cyn belled ag y mae'r Tîm Trawsnewid yn y cwestiwn, mae nifer o rolau wedi'u llenwi, gan gynnwys Arweinydd Ymarfer, Seicolegydd ac ati a bydd y gweddill yn cael eu cyfweld ddechrau mis Medi.

2) Diweddariad Gwasanaethau Oedolion:

i) Parhau i weithio ar gynllunio ar gyfer darpariaeth tai gofal ychwanegol newydd yn Ne'r Ynys -

Mae'r safle Gofal Ychwanegol newydd wedi'i adnabod. Mae'r gwaith wedi dechrau i gynllunio ar gyfer yr adeiladu a'r ddarpariaeth. Mae'r achos busnes yn cael ei gwblhau ar hyn o bryd. Unwaith bydd yr achos busnes wedi ei gwblhau ac wedi'i gymeradwyo bydd yr adran dai yn penodi tîm o ddylunwyr i ddatblygu'r prosiect ymhellach. Mae cyfraniad gan ICF wedi ei ddyrannu ar gyfer cyfanswm y gost adeiladu ar gyfer 2021/22

ii) Datblygu'r rhaglen Cysylltu Bywydau i gefnogi pobl sy'n byw gyda dementia gyda'u gofalydd ynghyd â dylunio Strategaeth Dementia sydd yn unol â Chynllun Dementia Llywodraeth Cymru -

Mae'r Gwasanaeth wedi leihau oherwydd y sefyllfa COVID-19, ac oherwydd gostyngiad yn y cyllid ICF. Un swyddog ar gyfer Gwynedd a Môn. Tra bod y prosiect wedi ymestyn i gynnwys Oedolion hŷn ynghyd â chleientiaid â Dementia. Rydym yn gobeithio y byddwn ni'n gallu aildechrau'r gwasanaeth cyn gynted ag y bydd rheoliadau COVID yn caniatáu.

Disgwylir i adolygiad o'r prosiect gael ei gynnal ym mis Rhagfyr, i ystyried a fydd y cyllid ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf yn cael ei adolygu ai peidio.

iii) Datblygu cyfleoedd ar gyfer pobl ag anghenion iechyd meddwl i gymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp yn y gymuned -

Mae'r sefyllfa yn parhau i fod yr un fath oherwydd cyfyngiadau COVID-19, ac wrth i gyfyngiadau gael eu codi byddwn yn anelu at gynyddu'r cyfleoedd a'r gweithgareddau. Mae sesiynau cefnogaeth unigol wedi aildechrau ar gyfer rhai unigolion.

iv) Sefydlu 3 Thîm Adnoddau Cymunedol, sydd wedi'u lleoli yn Amlwch, Ysbyty Penrhos Stanley a Llanfairpwll, a fydd yn dod â Staff y Cyngor a Betsi Cadwaladr at ei gilydd i wella mynediad i'n gwasanaethau gofal a chymorth cyn gynted â phosibl-

Wedi ymgymryd â gwaith i sefydlu tri Thîm Adnoddau Cymunedol (CRT) yn Amlwch, Ysbyty Penrhos Stanley a Llanfairpwll yn ystod y flwyddyn. Mae'r holl staff Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi eu dynodi i'w CRT priodol yn y tair ardal.

Mae cynnydd sylweddol wedi ei wneud yn y ddau chwarter cyntaf o'r flwyddyn o ran datblygiad y Prototeip WCCIS ar yr Ynys. Mae'n brosiect ar y cyd gyda Thîm Cymunedol BCUHB, ac rydym wedi mapio allan arferion gwaith presennol ar draws pob un o'r meysydd gwaith, ac yn y broses o gytuno a datblygu egwyddorion gwaith ar y cyd newydd a fydd yn cael eu cynnwys yn y WCCIS er mwyn fod pob gweithiwr yn medru cael mynediad at y wybodaeth cleientiaid fwyaf diweddar. Bydd y gwaith hwn yn ddibynnol ar gymeradwyaeth yr achos busnes WCCIS gan BCUHB, sydd ar hyn o bryd yn mynd trwy eu prosesau mewnol. Rydym yn gobeithio bod mewn sefyllfa i ddechrau adeiladu'r system i gwrdd ag anghenion y Timau Adnoddau Cymunedol erbyn diwedd mis Medi.

Ymgysylltu ac ymgynghori gyda defnyddwyr ar y Strategaeth cyfleoedd Dydd Anableddau Dysgu Oedolion fel ein bod yn creu ystod ehangach o gyfleoedd dydd o ansawdd uchel ar gyfer uniogolion a'u cymunedau-

Mae'r Strategaeth Cyfleoedd Dydd Anableddau Dysgu Oedolion ar waith, fodd bynnag ni fydd yr ymgynghoriad ffurfiol ar ddatblygiad ystod ehangach o gyfleoedd dyddiau o ansawdd uchel ar gyfer unigolion a'u cymunedau yn cael ei gynnal tan Gwanwyn 2022. Yn y cyfamser, mae opsiynau cymunedol yn cael eu harchwilio ar draws yr Ynys.

3) Diweddariad Pandemig COVID-19 y Gwasanaethau Cymdeithasol ar y Cyd:

Mae'r sefyllfa yn parhau'r un fath ag yn ein diweddariad ym mis Chwefror 2021:

Mae'r pandemig COVID-19 wedi effeithio ar y ffordd yr ydym ni'n gweithio ers diwedd Chwefror 2020, gyda chynlluniau Rheoli Parhad Busnes a Chorfforaethol wedi eu rhoi ar waith gan ddilyn canllawiau cenedlaethol ac oherwydd effaith COVID-19 yng nghanol Mawrth 2020:

- Cyflwr y pwerau a'r cyllidebau brys a ddefnyddir
- Mae'r Tîm Ymateb Rheoli Argyfwng yn parhau, wrth reoli busnes fel arfer, ac yn paratoi ar gyfer y cyfnodau pan gaiff y cyfyngiadau eu llacio a'r adferiad
- Adroddiadau Sefyllfa Dyddiol a Wythnosol yn cael eu paratoi i grynhoi penderfyniadau, materion a risgiau allweddol
- Cyfathrebu rheolaidd yn fewnol ag Aelodau a staff ac yn allanol drwy wefan a chyfryngau cymdeithasol y Cyngor
- Adolygu cofrestr risg COVID-19 ffurfiol a'i diweddarau'n wythnosol

Defnyddio pwerau dirprwyedig brys sy'n galluogi'r Cyngor i wneud penderfyniadau hanfodol. Arweiniodd hyn at y mwyafrif o Staff y Cyngor yn gweithio gartref lle bo hynny'n bosibl, cau adeilad ein Cyngor ar gyfer ymwelwyr, cau ein canolfannau anableddau dysgu dydd, cau ein cartrefi Gofal Preswyl a Nyrsio i ymwelwyr nad ydynt yn hanfodol a gostyngiad yn ein gwasanaethau.

Yn ystod y cyfnod parhaus o gyfyngiadau symud rydym wedi parhau i:

- Parhau i gyflawni ein holl ddyletswyddau statudol;
- Gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, Arolygiaeth Gofal Cymru, Cymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS), Iechyd Cyhoeddus Cymru, BIPBC, Darparwyr a chydweithwyr o fewn Tîm Cydnerthedd Gogledd Cymru, yn ogystal â llawer o rai eraill;
- Sefydlu storfa Cyfarpar Diogelu Personol i reoli danfoniadau Cyfarpar gan Lywodraeth Cymru, wedi'i reoli o fewn ein hadnoddau Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Datblygu a defnyddio arferion gwaith arloesol i addasu i gyfnod y pandemig er mwyn hwyluso cyswllt, asesiadau, adolygiadau, gan sicrhau bod ein dyletswyddau diogelu'n cael eu cyflawni.
- Parhau i gydymffurfio ag achosion Llys a Chynllunio Gofal.
- Parhau i recriwtio Gofalwyr Maeth Awdurdodau Lleol.

4) Canfyddiadau Adolygiad Sicrwydd Awdurdod Lleol Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)

Yn dilyn ein harolygiad gan AGC rhwng 14eg - 18fed o Fehefin 2021, rydym wedi derbyn y canfyddiadau canlynol mewn llythyr gan y Pennaeth Arolygu Awdurdod Lleol.



CIW - Isle of
Anglesey County Co



AGC- Cyngor Sir
Ynys Mon - Archwili:

Bydd yr adroddiad llawn yn cael ei gyhoeddi ar wefan AGC yn fuan.

5) Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol

Mae'r Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol wedi parhau i gyfarfod yn rheolaidd er yr heriau a'r cyfyngiadau a ddaeth yn sgil y Pandemig. Fe wnaeth y Panel gyfarfod ym Mawrth, Ebrill, Mai a Gorffennaf 2021 gyda chyfarfodydd wedi eu trefnu tan ddiwedd y flwyddyn ariannol bresennol. Gellir adrodd fod y Panel Sgriwtini yn parhau i dderbyn tystiolaeth o welliannau a datblygiadau yn y Gwasanaethau Plant ac Oedolion, sydd yn rhoi sicrwydd o ran y cynydd hyd yma. Mae crynodeb o fewnbwn y Panel Gwella dros y 6 mis diwethaf yn atodol (**Atodiad 1**).

6 – Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb [gan gynnwys effeithiau ar yr Iaith Gymraeg]

Ddim yn Berthnasol

7 – Goblygiadau Ariannol

Ddim yn Berthnasol

8 – Atodiadau:

Adroddiad Cynnydd y Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol.

9 - Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad i gael rhagor o wybodaeth):

Fel y'u cynhwyswyd.

Adroddiad Cynydd y Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol

Mae'r adroddiad cynnydd hwn yn cyfeirio at 4 cyfarfod o'r Panel Gwella Gwasanaethau Cymdeithasol (a gynhaliwyd ar 23/03/21, 20/04/21, 25/05/21 a 20/07/21) ac o ganlyniad yn cwmpasu'r cyfnod **Mawrth** → **Gorffennaf, 2021**.

1. Adolygiad o'r Blaen Raglen Waith gan gynnwys Ymweliadau Laming

- Adolygiad pellach o flaen raglen waith y Panel er mwyn sicrhau fod ffocws ar welliannau/datblygiadau allweddol yn y Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Ymweliadau Laming - mae rhaglen ddiwygiedig wedi ei rhoi ar waith dros y 6 mis diwethaf, gydag Ymweliadau yn cael eu cynnal yn rhithiol. Mae'r Ymweliadau Laming wedi canolbwyntio ar y meysydd canlynol → Tîm Maethu, Adnodd Iechyd Meddwl Cymunedol (Heddfan), Cydlynwyr Ardal Lleol (Plant ac Oedolion), Timau Adnoddau Cymunedol, Cartrefi Clyd Môn.

2. Ymateb y Gwasanaethau Cymdeithasol i Covid-19

Derbyniodd y Panel gyflwyniad cynhwysfawr ar ymateb y Gwasanaethau Cymdeithasol i Covid-19. Nodwyd fod y dadansoddiadau SWOT wedi eu cynnal yn rheolaidd er mwyn asesu beth sydd wedi gweithio yn dda a beth sydd heb weithio fel rhan o broses rheoli'r Gwasanaethau Cymdeithasol mewn ymateb i'r Pandemig.

3. Timau Adnoddau Cymunedol

Rhoddyd diweddariad ym mis Mawrth ynghylch gwaith y Timau Adnoddau Cymunedol a fydd yn sail i ddarpariaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol o wasanaethau di-dor i ddefnyddwyr mewn partneriaeth â'r Bwrdd Iechyd. Nodwyd fod Gwasanaethau Oedolion wedi symud at fodel 3 ardal o weithio – Gogledd (Amlwch), De Orllewin (Ysbyty Penrhos Stanley) a De Ddwyrain (Plas Mona, Llanfairpwll). Mae cyfarfodydd y Timau Adnoddau Cymunedol nawr yn cael eu cynnal yn wythnosol i drafod / cydweithio ar achosion cymhleth.

4. Gweithio mewn Partneriaeth – y berthynas rhwng y Gwasanaeth Tai a'r Gwasanaethau Cymdeithasol

Trafododd Pennaeth y Gwasanaethau Tai'r berthynas gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol fel sail i gefnogi'r Gwasanaethau Oedolion a Phlant i ddarparu gwasanaethau ar gyfer unigolion bregus. Nodwyd Cartrefi Clyd Môn, Tai Gofal Ychwanegol ac addasiadau tai fel esiamplau o'r gweithio mewn partneriaeth effeithiol rhwng y ddau wasanaeth.

5. Gwasanaeth Ieuencid ac Adroddiad Estyn

Ym mis Ebrill, adolygodd y Panel gyflwyniad ar gyfraniad y Gwasanaeth Ieuencid o ran cefnogi plant a phobl ifanc bregus yn lleol. Cyfeiriwyd hefyd at ganfyddiadau'r arolwg Estyn diweddar. Nodwyd fod rheolaeth y Gwasanaeth Ieuencid bellach wedi ei drosglwyddo i'r Gwasanaethau Cymdeithasol ond yn parhau i weithio'n agos â'r Gwasanaeth Addysg, gan weithio'n bennaf mewn ysgolion ynghyd â chymunedau lleol. Mae gweithwyr y Gwasanaeth Ieuencid wedi chwarae rôl allweddol mewn danfon pecynnau bwyd i blant pan oedd y Pandemig ar ei anterth a oedd hefyd yn rhoi cyfle i ymgysylltu â rhieni / gofawyr. Nodwyd fod canlyniad yr adroddiad Estyn yn bositif ac fe gyfeiriwyd yn benodol at waith effeithiol y Gwasanaeth Ieuencid mewn cefnogi unigolion bregus yn ystod y Pandemig.

6. Hunanwerthusiad y Panel

Ym mis Ebrill, cwblhaodd y Panel hunanwerthusiad er mwyn mesur effeithiolrwydd y gwaith a daethpwyd i'r casgliad fod y Panel yn parhau i gael effaith positif a'i fod yn ychwanegu gwerth i lywodraethiant y sefydliad.

7. Adolygiad Diagnostig Annibynnol - Gwasanaethau Oedolion

Derbyniodd y Panel gyflwyniad ym mis Mai ar ganfyddiadau adolygiad diagnostig diweddar o'r gwasanaethau oedolion. Nodwyd manylion y meysydd sydd angen datblygiad pellach, a fydd yn sail i raglen datblygiad gwasanaeth wrth symud ymlaen.

8. Gwiriad Sicrwydd Arolygiaeth Gofal Cymru o'r Gwasanaethau Cymdeithasol

Adroddodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol hefyd ym mis Mai am archwiliad sicrwydd Arolygiaeth Gofal Cymru o'r Gwasanaethau Cymdeithasol a oedd wedi'i drefnu. Nodwyd y byddai'r ymweliad yn cael ei gynnal ar yr wythnos yn dechrau 14eg o Fehefin, 2021 am wythnos gyda'r holl waith archwilio yn cael ei wneud yn rhithiol. Bydd yr arolygiad yn canolbwyntio ar y meysydd canlynol:

- Sut mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cyflawni eu gwaith statudol yn ystod y Pandemig
- Adolygu pa mor dda y mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn parhau i helpu oedolion, plant a'u gofalwyr yn ystod y cyfnod anodd hwn.
- Cynlluniau ar gyfer cynaliadwyedd gwasanaethau yn y dyfodol.

9. Tîm Teuluoedd Gwydn / IFSS

Derbyniodd y Panel gyflwyniad ar waith y Tîm Teuluoedd Gwydn / IFSS sydd bellach yn integredig, i gefnogi teuluoedd bregus. Nodwyd mai prif amcan y gwasanaeth yw ymgysylltu gyda theuluoedd gyda golwg ar osgoi plant yn dod i mewn i ofal yr awdurdod lleol. Cyfeiriwyd at ganlyniadau positif i deuluoedd unigol sydd hefyd wedi golygu bod y Gwasanaeth wedi medru osgoi costau.

10. Adroddiad Blynyddol ar Gwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol: 2020/21

Ym mis Mehefin, derbyniodd y Panel gyflwyniad ar Adroddiad Blynyddol ar Gwynion y Gwasanaethau Cymdeithasol 2020/21. Nodwyd fod 50 o sylwadau negyddol / pryderon a 200 o sylwadau positif wedi eu derbyn yn ystod 2020/21 a bod yr Adroddiad Blynyddol yn un mwy positif na'r flwyddyn flaenorol.

Mae cyfarfodydd pellach o'r Panel wedi eu trefnu fel â ganlyn:

- 19 Hydref, 2021
- 30 Tachwedd, 2021
- 25 Ionawr, 2022
- 15 Chwefror, 2022.